**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2000 Rhif 1159 (Cy.90)

## ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Caiff Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer technoleg ei ddiwygio o 1 Awst 2000 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i raglenni astudio newydd, sy'n nodi beth ddylid ei addysgu i ddisgyblion, ac yn gosod targedau cyrhaeddiad iddynt. Rhoddir y manylion amdanynt mewn dogfennau o'r enw "Dylunio a Thechnoleg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol"a"Gwybodaeth a Thechnoleg y Cwricwlwmn Cenedlaethol" sydd ar gael gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn disodli Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 1998.

**National Assembly for Wales**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2000 No. 1159 (W.90)

## EDUCATION, WALES

# The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 2000

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The National Curriculum for Wales for technology will be revised from 1st August 2000. This Order gives legal effect to the new programmes of study, which set out what pupils should be taught, and attainment targets for them. Details of these are set out in a documents called "Design and Technology in the National Curriculum" and "Information Technology in the National Curriculum" which are available from the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales.

The Order replaces the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 1998.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1159 (Cy.90)

## ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *10 Ebrill 2000* |
| *Yn dod i rym* | *1 Awst 2000* |

Cyflawnwyd y gofynion a nodir yn yr Atodlen.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 356(2)(a) a (b) a (4) o Ddeddf Addysg 1996**(a)** ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**(b)**, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chwmpas**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Awst 2000.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "yr Awdurdod" yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru**(c)** (*"the Authority"*);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (*"the National Assembly"*);

(a) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 356(4) gan baragraff 87(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).

(b) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 356 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) Sefydlwyd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru gan adran 14(1)(b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), parhaodd mewn bodolaeth yn rhinwedd adran 360 o Ddeddf Addysg 1996 a rhoddwyd ei enw cyfredol iddo gan adran 27(1) o Ddeddf Addysg 1997.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1159 (W.90)

## EDUCATION, WALES

## The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 2000

| | |
|---|---|
| *Made* | *10th April 2000* |
| *Coming into force* | *1st August 2000* |

The requirements set out in the Schedule have been fulfilled.

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 356(2)(a) and (b) and (4) of the Education Act 1996**(a)** and now vested in the National Assembly for Wales**(b)**, the National Assembly for Wales makes the following Order:

**Citation, commencement, interpretation and application**

**1.**—(1) This Order may be cited as the Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 1st August 2000.

(2) In this Order—

"the Authority" means the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(c) (*"yr Awdurdod"*);

"the Documents" means the documents published by the Authority in 2000 entitled "Design and Technology

(a) 1996 c.56. Section 356(4) is amended by paragraph 87(a) of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31).

(b) The functions of the Secretary of State under section 356 of the Education Act 1996 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) The Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales was established by section 14(1)(b) of the Education Reform Act 1988 (c.40), continued in existence by section 360 of the Education Act 1996 and given its current name by section 27(1) of the Education Act 1997.

ystyr “y Dogfenau” yw’r dogfennau a gyhoeddir gan yr Awdurdod yn 2000 o dan y teitl “Dylunio a Thechnoleg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol” a “Gwybodaeth a Thechnoleg y Cwricwlwm Cenedlaethol”**(a)** *(“the Documents”)*.

(3) Mae’r Gorchymyn hwn yn gymwys i ysgolion yng Nghymru’n unig.

**Diddymu**

**2.** Diddymir Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Thechnoleg) (Cymru) 1998**(b)**.

**Pennu targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio**

**3.** Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfarwyddo bod y darpariaethau ynglŷn â thargedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio a nodir yn y Dogfennau i gael effaith i’r diben o bennu’r targedau cyrhaeddiad a rhaglenni astudio ynglŷn â thechnoleg.

**4.** Nid yw’r enghreifftiau a italeiddiwyd yn y Dogfennau (er mwyn dangos y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi) yn ffurfio rhan o’r ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(c)**

*D. Elis Thomas*

10 Ebrill 2000

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

in the National Curriculum” and “Information Technology in the National Curriculum”**(a)** *(“y Dogfennau”)*;

“the National Assembly” means the National Assembly for Wales *(“y Cynulliad Cenedlaethol”)*.

(3) This Order applies only to schools in Wales.

**Revocation**

**2.** The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 1998**(b)** is revoked.

**Specification of attainment targets and programmes of study**

**3.** The National Assembly directs that the provisions relating to attainment targets and programmes of study set out in the Documents shall have effect for the purpose of specifying the attainment targets and programmes of study in relation to technology

**4.** The examples printed in italics in the Documents (which serve to illustrate the programmes of study described therein) do not form part of the provision made by this Order.

Signed on behalf of the National Assembly under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(c)**

*D. Elis Thomas*

10th April 2000

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) ISBN 07504 24060/07504 24052

(b) O.S. 1998/1890.

(c) 1998 p.38.

(a) ISBN 07504 24060/07504 24052

(b) S.I.1998/1890.

(c) 1998.c.38.

ATODLEN

GOFYNION O DAN ADRAN 368 O DDEDDF ADDYSG 1996**(a)**

**Adran 368(2)**

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol gynnig i'r Awdurdod gan roi cyfarwyddiadau amser ynglŷn â'r cyfnod yr oedd yr Awdurdod i roi adroddiad**(b)**.

**Adran 368(3)**

Hysbysodd yr Awdurdod y cynnig i'r cyrff a'r personau y cyfeirir atynt yn adran 368(3) o Ddeddf Addysg 1996 a rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno tystiolaeth a sylwadau ar y materion a oedd yn codi.

**Adran 368(5)**

Cyflwynodd yr Awdurdod ei adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 368(5)**

Trefnodd yr Awdurdod gyhoeddi'r adroddiad.

**Adran 368(6) a (7)**

Cyhoeddwyd drafft o'r Gorchymyn a'r ddogfen gysylltiedig a chaniatawyd cyfnod o un mis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau ynglŷn â materion a oedd yn codi.

**Adran 368(6) a (7)**

Anfonwyd copi o'r Gorchymyn drafft a'r ddogfen gysylltiedig i'r Awdurdod ac at bob un person yr ymgynghorodd yr Awdurdod â hwy a chaniatawyd cyfnod o un mis ar gyfer cyflwyno tystiolaeth a sylwadau ynglŷn â materion a oedd yn codi.

(a) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 368 gan baragraff 28 o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 368 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) O dan adran 23(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) caiff y Cynulliad Cenedlaethol barhau gydag unrhyw beth a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â swyddogaethau a freiniwyd ynddo gynt a bydd yn cael effaith fel pe bai wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol.

SCHEDULE

REQUIREMENTS UNDER SECTION 368 OF THE EDUCATION ACT 1996**(a)**

**Section 368(2)**

The Secretary of State referred a proposal to the Authority and gave directions as to the time within which the Authority were to report**(b)**.

**Section 368(3)**

The Authority gave notice of the proposal to the bodies and persons referred to in section 368(3) of the Education Act 1996 and gave them a reasonable opportunity of submitting evidence and representations as to the issues arising.

**Section 368(5)**

The Authority submitted its report to the National Assembly.

**Section 368(5)**

The Authority arranged for the report to be published.

**Section 368(6) and (7)**

A draft of the Order and of the associated document was published and a period of one month allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.

**Section 368(6) and (7)**

A copy of the draft Order and associated document was sent to the Authority and to each of the persons consulted by the Authority and a period of one month was allowed for the submission of evidence and representations as to the issues arising.

(a) 1996 c.56. Section 368 is amended by paragraph 28 of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44). The functions of the Secretary of State under section 368 were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) Under section 23(3) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) anything done by the Secretary of State in connection with functions formerly vested in him may be continued by the National Assembly and has effect as if done by the National Assembly.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2000 Rhif 1159 (Cy.90)

## ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio mewn Technoleg) (Cymru) 2000

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2000 No. 1159 (W.90)

## EDUCATION, WALES

The Education (National Curriculum) (Attainment Targets and Programmes of Study in Technology) (Wales) Order 2000

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090072-3

9 780110 900728

**£2.00**

WO6117 07/00 ON